# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021

## 322(v5)

### Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau pan ddaw y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan i ben. Bydd y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn cychwyn am 13.00

Pwyllgor o'r Senedd Gyfan

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.
Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.
Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Frechiadau COVID-19

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gweithio mewn Partneriaeth ar gyfer Gwaith Teg Cymru

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

(30 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 7-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(30 munud)

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021

**NDM7590** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

**NDM7589** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

(15 munud)

**NDM7588** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2021-2022

(90 munud)

**NDM7586** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 21 Rhagfyr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Gohebiaeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

Llythyr at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Llythyr at y Gweinidog Addysg

Llythyr at y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yn galluogi Cymru i adeiladu'n ôl yn well ac adfer yn dilyn pandemig COVID-19.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddetholwyd gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Gwelliant 4** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adnodd cyllidol sydd heb ei ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2021-22 yn cael ei ddefnyddio yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22 i ehangu meini prawf cymhwysedd prydau ysgol am ddim i gynnwys pob plentyn mewn teulu sy'n derbyn credyd cynhwysol neu fudd-dal cyfatebol ac unrhyw blentyn mewn teulu nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt.

## 11 Dadl: Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol

(60 munud)

**NDM7587** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii):

Yn nodi:

a) adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2020;

b) y Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2020

Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod ymdrechion yr holl weision cyhoeddus a'r cyhoedd i fynd i'r afael â COVID-19 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn rhoi diolch iddynt am yr ymdrechion hynny.

**Gwelliant 2** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun adfer cenedlaethol, yn enwedig o ystyried y posibilrwydd y gallai 3,500 o bobl golli allan ar driniaeth canser yng Nghymru.

**Gwelliant 3** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymhellach y diffyg uchelgais yn y rhaglen ddeddfwriaethol, yn enwedig yr oedi o ran cyflwyno Deddf aer glân i Gymru cyn diwedd tymor y Senedd, er bod cefnogaeth drawsbleidiol ar ei chyfer.

## 12 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.00, Dydd Mercher, 10 Chwefror 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/02/2021 i'w hateb ar 09/02/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

1

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

OQ56295

**(e)**

Pa flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn Islwyn yn ystod COVID-19?

2

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

OQ56293

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â statws cyfansoddiadol Cymru o fewn y Deyrnas Unedig?

3

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ56255

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hynt y broses o gyflwyno'r brechlyn yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

4

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ56297

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu brechlynnau COVID-19 yn Nwyrain De Cymru?

5

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ56292

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i lunio strategaeth i lacio'r cyfyngiadau symud?

6

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

OQ56291

**(e)**

Beth y mae blaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystod pandemig COVID-19?

7

**Nick Ramsay** *Mynwy*

OQ56294

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r economi wledig yn ystod y pandemig?

8

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OQ56270

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau y mae llifogydd yng nghanolbarth Cymru wedi effeithio arnynt?

9

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

OQ56286

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o oblygiadau'r Undeb Ewropeaidd yn galw erthygl 16 i rym mewn perthynas â brechlynnau COVID-19?

10

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ56296

**(e)**

Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth iechyd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

11

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56290

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu i ba raddau y mae Deddf Addysg 1996 wedi dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y pumed Senedd?

12

**David Melding** *Canol De Cymru*

OQ56278

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynllun Turing yn hyrwyddo amcanion tebyg i rai rhaglen Erasmus yr UE?

## CWNSLER CYFFREDINOL

1

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ56266

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith yn Llywodraeth y DU ynghylch effaith Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar weithrediad y gyfraith yng Nghymru a Lloegr?

2

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

OQ56263

**(e)**

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau lefel rhybudd 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau, pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddarparu ynghylch a ganiateir yn gyfreithiol i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr eraill ddosbarthu taflenni etholiad?

3

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ56265

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith yn y DU ynghylch effaith y dyfarniad yn achos yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (apelydd) yn erbyn Arch Insurance (UK) Ltd ac eraill (ymatebwyr)?

4

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

OQ56261

**(e)**

Tynnwyd yn ôl

Pa gyngor y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch y pwerau cyfreithiol sydd ganddi i gryfhau'r gallu i ddiogelu da byw rhag ymosodiadau gan gŵn?

5

**David Melding** *Canol De Cymru*

OQ56271

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi cyfraith Cymru yn y pumed Senedd?

6

**David Melding** *Canol De Cymru*

OQ56272

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ymdrechion i wella ansawdd a chwmpas y sylwebaeth ar gyfraith Cymru yn ystod y pumed Senedd?